Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

O dan embargo nes 00:01am 14 Ionawr 2009

Estyn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar arolygu

Mae Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus heddiw sy'n ceisio barn am y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae darparwyr addysg a hyfforddiant yn cael eu harolygu. Bydd adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gynllunio fframwaith arolygu newydd a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2010.

Mae Estyn eisoes wedi cynnal cam cyntaf ymgynghoriad anffurfiol. Mae'r canfyddiadau'n dangos y byddai'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd a llawer o weithwyr proffesiynol ym maes addysg a hyfforddiant yn ffafrio arolygiadau byrrach, llymach, gyda mwy o gefnogaeth a monitro'n canolbwyntio ar ddarparwyr gwannach.

Mae cyfnodau byrrach o rybudd ar gyfer arolygiadau ac adroddiadau mwy clir a haws mynd atynt hefyd yn amlwg ar yr agenda. Mae'r cynigion newydd hefyd yn rhoi mwy o lais i ddefnyddwyr gwasanaethau, yr eir i'r afael â nhw'n fwy penodol mewn adroddiadau. Hoffai gweithwyr proffesiynol weld arolygu'n tynnu ar hunanarfarnu'r darparwr, gydag arolygwyr yn rhoi prawf ar wirionedd y rhain, ac maent wedi galw am roi rôl allweddol i gymheiriaid yn y broses arolygu ym mhob sector.

Bydd yr ail gam hwn o'r broses ymgynghori yn rhoi adborth i Estyn wrth iddo lunio'r cynigion hyn yn derfynol; cynigion sydd â'r nod o sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd arolygu yng Nghymru.

Mae ymgynghoriad Estyn yn cael ei lansio wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar ddatganiad polisi ehangach ar Arolygu, Archwilio, a Rheoleiddio yng Nghymru. Mae fframwaith arolygu newydd Estyn wedi cael ei gynllunio fel ei fod yn gweddu'n gydlynol i'r polisi ehangach hwn, gan helpu felly i gyflwyno dull mwy unedig ar draws wahanol sectorau gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae Estyn yn annog y cyhoedd ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru i gymryd rhan.

Mae'r cynigion a'r holiadur i'w cael ar wefan Estyn, www.estyn.gov.uk neu, fel arall, mae copïau caled ar gael oddi wrth CRG Research Ltd (consult@crgresearch.co.uk/ 029 2034 3218). Bydd y cyfnod ymgynghori'n para am 3 mis o 14 Ionawr 2009 ymlaen. Gellir ymateb yn ddienw a chaiff yr ymatebion eu trin yn gyfrinachol.

-DIWEDD –

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464

Nodiadau i Olygyddion

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn drwy gynnig gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod yn llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru, drwy arbenigedd ein staff.

Rydym yn annibynnol ar, ond yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk